# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 13/01/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Cymunedau Gwledig

**C10 Kirsty Williams:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i helpu i gynnal cymunedau gwledig? OAQ(3)0930(RAF)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Ar 15 Rhagfyr, cyhoeddais ddatganiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am fy nghynlluniau ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion cymunedau mewn ardaloedd gwledig anghysbell a chymunedau gwledig ehangach, a hynny ar ôl cyhoeddi'r astudiaeth o ardaloedd gwledig anghysbell gan Arsyllfa Wledig Cymru.

### Undebau'r Ffermwyr

**C11 Chris Franks:** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag undebau'r ffermwyr? OAQ(3)0913(RAF)

**Elin Jones:** Yr wyf yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r undebau ffermio. Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ar 18 Rhagfyr 2009 er mwyn trafod y cynlluniau ar gyfer Glastir, y cynllun rheoli tir newydd.

### Anifeiliaid

**C12 Darren Millar:** Pa amcangyfrif y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o nifer yr anifeiliaid a brynwyd yn anifeiliaid anwes ac a gafodd eu gadael ar ôl cyfnod y Nadolig? OAQ(3)0907(RAF)

**Elin Jones:** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw'r wybodaeth hon.

### Cynaliadwyedd yn y Sector Ffermio

**C13 Darren Millar :** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynaliadwyedd yn y sector ffermio? OAQ(3)0903(RAF)

**Elin Jones:** Ceir yn fy strategaeth, 'Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad: Creu Dyfodol Cadarn', weledigaeth glir sy'n rhoi ffermio yng Nghymru yn ganolog i gefn gwlad cynaliadwy ac economi wledig ffyniannus. Golyga hyn y gallu i ymateb i'r heriau a welir yn y dyfodol a manteisio ar y cyfleoedd a fydd yn ymddangos mewn economi sy'n fwyfwy cyfnewidiol ei natur ac sydd hefyd yn ymestyn i bedwar ban y byd.

### Cymunedau Gwledig

**C14 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei pholisïau i helpu i gryfhau cymunedau gwledig? OAQ(3)0924(RAF)

**Elin Jones:** Mae 'Cymru'n Un' yn pennu blaenoriaethau ac ymrwymiadau'r Llywodraeth ar gyfer cymunedau ledled Cymru, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd gwledig. O fewn fy mhortffolio i, caiff hyn ei gyflawni drwy gynllun datblygu gwledig Cymru.

### Milltiroedd Bwyd

**C15 David Melding:** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog defnyddwyr i ddefnyddio cyflenwyr lleol er mwyn lleihau eu milltiroedd bwyd? OAQ(3)0916(RAF)

**Elin Jones:** Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru nifer o gynlluniau i hyrwyddo bwyd a diod lleol i brynwyr yng Nghymru, gan gynnwys gwobrau'r Gwir Flas, cymorth ariannol i wyliau bwyd a hyrwyddo gwerthiant uniongyrchol oddi wrth gynhyrchwyr.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

*Tynnwyd cwestiwn 10, OAQ(3)1126(ESH), yn ôl.*
*Question 10, OAQ(3)1126(ESH), withdrawn.*

### Effeithlonrwydd Ynni

**C11 Brynle Williams**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella effeithlonrwydd ynni? OAQ(3)1086(ESH)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Yn dilyn ymgynghoriad ar y cynllun cenedlaethol effeithlonrwydd ac arbedion ynni, yr wyf yn disgwyl amlinellu ein cynlluniau ar gyfer bwrw ymlaen ag effeithlonrwydd ynni yng Nghymru yn ddiweddarach eleni. Mae'r rhaglenni presennol yn cynnwys ein cefnogaeth i'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, yr Ymddiriedolaeth Garbon a'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref.

### Tai heb eu Meddiannu

**C12 Alun Cairns**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel y tai heb eu meddiannu yng Nghymru? OAQ(3)1095(ESH)

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies):** Mae'r wybodaeth oddi wrth yr uned ddata llywodraeth leol ar gyfer 2008-09 yn dangos bod 21,758 o anheddau yn y sector preifat yng Nghymru wedi bod yn wag ers mwy na chwe mis ar 1 Ebrill 2009. Defnyddiodd yr awdurdodau lleol 567 ohonynt yn ystod y flwyddyn.

### Blaenoriaethau

**C13 Angela Burns:** Beth yw prif flaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer amgylchedd Cymru yn 2010? OAQ(3)1092(ESH)

**Jane Davidson:** Mae strategaeth yr amgylchedd a'i chynlluniau gweithredu yn pennu'r prif bolisïau, rhaglenni a blaenoriaethau ar gyfer gwella ein amgylchedd. Mae'r fframwaith hwn yn canolbwyntio ar faterion allweddol megis y newid yn yr hinsawdd, gwastraff a bioamrywiaeth ac yn pennu sut y byddwn yn ymateb i'r heriau hyn.

**Polisi Cynllunio Cynaliadwy**

**C14 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu polisi cynllunio cynaliadwy? OAQ(3)1119(ESH)

**Jane Davidson:** Fy mlaenoriaeth yw sicrhau bod y system gynllunio yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu o ran datblygu cynaliadwy, gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd, yr angen am dai fforddiadwy, a chefnogi'r adferiad economaidd. Rhaid i unrhyw benderfyniadau cynllunio gael eu gwneud ar yr amser priodol gan sicrhau cysondeb, a hynny'n seiliedig ar y cynlluniau datblygu lleol diweddaraf.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)1121(ESH), yn ôl.*
*Question 15, OAQ(3)1121(ESH), withdrawn.*